**DATGANIAD**

Mae bron i draean o blant Cymru yn byw mewn tlodi. Mae ein sefydliadau yn gweld yr effaith hynod o ddinistriol y mae byw mewn tlodi yn cael ar blentyndod yng Nghymru.

Fel sefydliadau hawliau plant, a llawer ohonym hefyd yn aelodau o grŵp Cyfeirio Allanol y Llywodraeth ar gyfer y strategaeth, rydym yn siomedig iawn nad yw Gweinidogion wedi gwrando ar ein galwadau am gynllun gweithredu cadarn gyda thargedau mesuradwy.

Er ein bod yn croesawu y ffaith bod y Llywodraeth yn cyfeirio yn uniongyrchol at hawliau plant a dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yn y strategaeth ddiwygiedig hon, mae agwedd sylfaenol ar goll: atebolrwydd. Roedd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn glir: Mae angen i'r Llywodraeth "...datblygu neu gryfhau polisïau presennol, gyda thargedau clir, dangosyddion mesuradwy a mecanweithiau monitro ac atebolrwydd cadarn, i roi terfyn ar dlodi plant a sicrhau bod gan bob plentyn safon bywyd da.

Rydym wedi cael addewid o fframwaith monitro, ond nid ydym wedi cael unrhyw syniad pryd y bydd hwn ar waith na beth fydd yn ei gynnwys. Tan hynny, ni fyddwn yn gwybod a yw arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru yn cyrraedd y plant hynny y mae eu bywydau'n cael eu heffeithio mor ddifrifol.

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

END CHILD POVERTY NETWORK CYMRU
RHWYDWAITH DILEU TLODI PLANT CYMRU

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

Action for Children
Gweithredu dros Blant

the trussell trust
Stop UK Hunger

cyngor ar bopeth
citizens advice

Credwch mewn plant
Believe in children
Barnardo's Cymru

HOME START
Cymru

Save the Children
Achub y Plant

OXFAM
CYMRU

The Children's Society

NSPCC
CYMRU | WALES

nyas
cymru
gwasanaeth eiriolaeth ieuenctid cenedlaethol
national youth advocacy service

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

CHILD POVERTY ACTION GROUP